# PWYLLGOR PENSIYNAU DYDD IAU, 14 MAWRTH 2019

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: John Pughe Roberts (Cadeirydd), Stephen Churchman, David Cowans (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Simon Glyn, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, Peter Read, Robin Williams (Cyngor Ynys Môn) a Tony Deakin (Cadeirydd Bwrdd Pensiynau yn arsylwi)

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Peredur Jenkins,

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

**i. Canllawiau cenedlaethol ar gyfer trefniadau 'pŵlio' buddsoddiadau'r C.P.Ll.L.**

Adroddwyd bod y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cynnal ymgynghoriad ar ganllawiau rheoli a gweinyddu 'pŵlio' buddsoddiadau cronfeydd C.P.Ll.L.. Amlygwyd bod ymateb Partneriaeth Pensiynau Cymru yn cael ei baratoi ac i'w drafod yn derfynol yng nghyfarfod nesaf Cyd-Bwyllgor Partneriaeth Cymru ar y 27ain o Fawrth. Awgrymwyd rhannu'r ymateb drafft terfynol Partneriaeth Cymru gyda holl aelodau Pwyllgor Pensiynau Gwynedd, fel byddai modd derbyn eu sylwadau arno. Ategwyd byddai'r Pennaeth Cyllid, y Rheolwr Buddsoddi a Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn mynychu cyfarfod Cyd-Bwyllgor Partneriaeth Cymru ar y 27ain o Fawrth.

**ii. Buddsoddi Egni Gwyrdd**

Er gwybodaeth adroddwyd bod rheolwyr aasedau isadeiledd y Gronfa, 'Partners Group', wedi cadarnhau bod buddsoddiad *"financing for the Greenlink Interconnector"* yn mynd i ddod o'r *Direct Infrastructure 2015 Fund* y mae Cronfa Gwynedd yn buddsoddi ynddo. Ategwyd bod yr *Interconnector* yn brosiect o drosglwyddo trydan o dan y môr rhwng Iwerddon a Sir Benfro. Nodwyd fod newyddion am fuddsoddiad o'r fath hyn i'w groesawu.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 21ain o Ionawr 2019 fel rhai cywir.

## 5. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2019/20

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2019/20, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2018/19 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019.

Dymuniad y Pwyllgor Pensiynau oedd caniatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda balansau ariannol y Cyngor fyddai o ganlyniad yn denu llog uwch, isafu costau banc ac osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor. Cadarnhawyd mai cadw'r Gronfa yn saff a gwarchod yr arian yw'r flaenoriaeth ac nid cymryd risg.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion.

- **Penderfynwyd cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol atodol am 2019/20, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn.**
- **Penderfynwyd gwneud cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni a'l gyd-fuddsoddi gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2019 ymlaen.**

## 6. PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU: BUDDSODDIADAU ECWITI

Cyflwynwyd adroddiad yn hysbysu'r aelodau am drosglwyddiad portffolio ecwiti Cronfa Gwynedd i gronfeydd newydd Partneriaeth Cymru. Trosglwyddwyd symiau cyfartal i ddwy gronfa yn mis Ionawr 2019,

- LF Wales PP Global Growth Fund (Class A Income)
  (Baillie Gifford, Veritas a Pzena)
- LF Wales PP Global Opportunities Equity Fund (Class A Income)
  (Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, NWG ac Oaktree)

Ategwyd bod yr ymarfer wedi bod yn rhwydd gyda buddsoddiadau i'r ddwy gronfa wedi cadw eu gwerth yn ystod y trosglwyddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag adolygu'r ffioedd, perfformiad a gwerth y trosglwyddiad, nodwyd ei fod yn gynamserol i ddyfalu am drefniadau manwl, fyddai trefniadau yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd dilynol Partneriaeth Pensiynau Cymru gyda 'Link Fund Solutions' a 'Russell Investments'.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amserlen y trosglwyddiadau, nodwyd mai'r categori asedau 'Incwm Sefydlog' fydd yn trosglwyddo nesaf gan Gronfa Gwynedd yn ystod Haf 2019. Ategwyd bod trafodaethau eisoes wedi eu cynnal yn y Panel Buddsoddi am y trosglwyddiadau hyn a bod diddordeb mewn cyfuniad o reolwyr asedau, gan gynnwys dau enw cyfarwydd yma yng Nghronfa Gwynedd.

Yng nghyd-destun asedau ecwiti mewn rhanbarthau penodol, eglurwyd nad oedd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd fuddsoddiadau yn y rhanbarthau dan sylw yn gyntaf, ond y byddai ein asedau ecwiti mewn rhanbarthau marchnadoedd datblygol

yn debygol o drosglwyddo yn hwyr yn y flwyddyn 2019.

Ystyriwyd bod oddeutu 70% o'r buddsoddiadau wedi eu trosglwyddo hyd yma, ac y byddai asedau incwm sefydlog yn ychwanegu tua 15% at hyn. Anodd fyddai rhagweld trosglwyddiad 100%, oherwydd natur rhai buddsoddiadau a'r anhawster gyda'u trosglwyddo oherwydd cytundebau hir dymor.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.30 y.h.

**CADEIRYDD**